Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Swyddog Ieuenctid Blaenau Gwent, a Mynwy | **Lleoliad** : | Hyblyg/i'w drafod |
| **Adran** : | Ieuenctid a Chymuned | **Cyflog** : | Gweithredol 3: £24,942 - £27,191 |
| **Oriau Gwaith** : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb** : | Tymor penodol – tan Mawrth 2025 |
| **Yn adrodd i** : | Rheolwr Cymunedol y De | **Rheolaeth Llinell** : | Dim |

## Prif bwrpas y swydd:

Darparu ac ymestyn, dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr, gynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc yn seiliedig ac yn unol a thargedau yr Awdurdodau Lleol a'r Urdd.

Bydd cynnig gwaith ieuenctid yr Urdd yn:

- Gyfoes ac yn adlewyrchu gofynion pobl ifanc trwy wrando ar eu llais.
- Cyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc Cymru o bob cefndir cymdeithasol.
- Ysbrydoli pobl ifanc i ymwneud a'r Gymraeg, gan ddatblygu hyder pob person ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd cynnig gwaith ieuenctid yr Urdd yn cyd-asio gyda *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru* a *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion.*

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

Darparu a hwyluso cynnig gwaith ieuenctid (oed 11-25). Y cynnig i gynnwys:

1. Trefnu gweithgareddau amrywiol a digonol sydd yn denu pobl ifanc tu allan i oriau ysgol. Bydd hyn yn cynnwys Clybiau, Gweithdai a Theithiau amrywiol yn ystod y nos, penwythnosau a gwyliau.
2. Cydweithio gyda Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent, a Mynwy i sicrhau ein bod yn mapio holl waith ieuenctid cymunedol cyfrwng Cymraeg ac adnabod bylchau. Bydd gofyn i drafod gyda partneriaid amrywiol a phobl lleol.
3. Hyrwyddo y gwaith o fewn ysgolion Uwchradd ac chynnig cyfleoedd i ddysgwyr.
4. Cynorthwyo a chefnogi pobl ifanc i fod yn wirfoddolwyr ifanc.
5. Sefydlu fforwm ieuenctid i sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael lle blaenllaw wrth gynllunio at y dyfodol ar y

cyd gyda'r Swyddogion Cymunedol.

6. Cefnogi aelodau i gynrychioli'r mudiad mewn digwyddiadau.
7. Ehangu amrywiaeth sy'n ymwneud gyda'n gwasanaeth o ran LGBT, anableddau, anghenion ychwanegol a chyfleoedd i aelodau o fewn ardaloedd difreintiedig.
8. Datblygu partneriaethau a mynychu cyfarfodydd gyda chyrff a sefydliadau allanol er mwyn cynnig cyfleoedd newydd ac amrywiol yn y Gymraeg i bobl ifanc yn enwedig gyda'r Awdurdodau sydd yn ariannu y gwaith.

Gwaith Trawsadrannol:

1. Ar gais y cyfarwyddwr, cyfrannu at a gweithredu prosiectau a rhaglenni trawsadrannol.
2. Cynnig cyfleoedd a phrofiadau Awyr Agored (ar y cyd gyda'r adran AA).
3. Cynorthwyo'r Swyddog Cymunedol i staffio Eisteddfodau a gweithio yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd pan yn y Gogledd.

Gweinyddol:

1. Dilyn trefniadau cynllunio, casglu data a mesur effaith yr Urdd gan baratoi adroddiadau a chasglu tystiolaeth i ddangos gwerth cynnig ieuenctid yr Urdd.
2. Rheoli cyllideb ar gyfer gweithgareddau'r ardal, gan gynnwys codi arian tuag at y targedau ariannol.
3. Cyfrifoldeb o farchnata effeithiol o'r gwaith ar draws nifer o gyfryngau ynghyd a sicrhau bod cynnwys ieuenctid ar wefan yr Urdd fyny i ddyddiad ac yn berthnasol.
4. Dilyn a chydymffurfio at holl weithdrefnau a pholisïau'r Urdd.
5. Unrhyw ddyletswyddau rhesymol fel y bydd yn ofynnol gan y Cyfarwyddwr.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| <u>Hanfodol:</u> | <u>Dymunol:</u> |
| --- | --- |
| 1. Bod yn hyderus i gyflwyno wybodaeth o flaen grwpiau mawr ar lein ac wyneb yn wyneb.<br><br>2. Profiad o weithio gyda Phobol Ifanc. | 1. Profiad a/neu gymhwyster mewn gwaith ieuenctid (cynigir cwrs penodol Agored Cymru Lefel 2 sydd yn arwain at gwblhau Tystysgrif Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid 3 onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster neu gymhwyster gwaith ieuenctid |

3. Rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu da yn y Gymraeg a’r Saesneg.

4. Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.

5. Person brwdfrydig, egnïol, a chreadigol i godi diddordeb yng ngweithgareddau’r Urdd yn y rhanbarth.

6. Bod â thrwydded yrru llawn a defnydd o gar.

7. Profiad o drefnu a chydlynu prosiectau.

8. Bod a phrofiad o ddefnyddio platfformau digidol i gynnig gweithgareddau i blant a phobl ifanc a defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithgareddau.

uwch).

2. Bydd dealltwriaeth o hawliau pobl ifanc a’r CCUHP (UNCRC) yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

3. Byddai ymwybyddiaeth o gynnwys y cyhoeddiad ‘Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Newidiadau i’r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mehefin 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU AC BUDDIANNAU

**(**ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Ieuenctid Blaenau Gwent, a Mynwy |
| Cyfnod prawf: | Bydd cyfnod prawf o 6 mis. |
| Gwiriad GDG: | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). |
| Archwiliad meddygol: | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| Cyflog: | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i'r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa. |
| Gwyliau blynyddol: | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi: | Arwahan i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr |
| Diwrnod Pen-blwydd: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-Blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Lles: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personnol i'w Lles.<br>Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |

| | |
|---|---|
| Profion Llygaid: | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| Yswiriant Bywyd: | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| Disgownt i staff: | Mae modd cael gostyngiad o :<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr urdd |
| Cynllun Beicio: | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000. |
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |